

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gymraeg Teilo Sant

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae bron bob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn hapus ac yn teimlo bod y staff yn eu gwerthfawrogi. Mae bron bob un yn ymddwyn yn ardderchog. Maent yn hynod gwrtais i'w gilydd ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau dysgu mewn amgylchedd Cymreig. Maent yn ddysgwyr hyderus, uchelgeisiol a chreadigol sy'n mynd ati i gwblhau eu tasgau heb ffws. Maent yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau priodol ac yn dyfalbarhau'n gydwybodol ar eu tasgau. Mae bron bob un yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ym mhob agwedd o'u dysgu ac yn cyfathrebu'n gwbl naturiol yn y Gymraeg gan ddefnyddio tafodiaith Dyffryn Tywi.

Mae disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd i fynegi barn am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol, gan gynnwys eu rôl ar y gwahanol gynghorau. Dim ond disgyblion Blwyddyn 6 sydd ar y cyngor ysgol ar hyn o bryd, ac maent yn hynod weithgar yn cynrychioli eu cyfoedion i wella agweddau ar fywyd yr ysgol. Er hyn, nid yw'r sefyllfa fel y mae yn rhoi cyfle i ddisgyblion o ddosbarthiadau eraill gyfrannu at waith y cyngor nac i ddysgu wrth yr aelodau presennol sut i redeg y cyngor pan ddaw eu cyfle nhw.

Mae'r pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol yn cydweithio'n hynod effeithiol i roi arweiniad cadarn i'r ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hunain, yr athrawon, y cynorthwywyr a'r disgyblion. Maent yn arddangos gwerthoedd da ac ymddygiad proffesiynol uchel sy'n cyfrannu'n hynod gadarnhaol at sicrhau bod yr ysgol yn hafan gartrefol i'r disgyblion a'r staff. Maent yn sicrhau bod safon yr addysgu, y dysgu a'r gofal yn dda iawn. Ynghyd â'r holl staff, maent yn gweithio'n dda fel tîm i arwain yr addysgu a darparu cwricwlwm eang a diddorol i'r disgyblion, sy'n dal eu dychymyg ac yn eu hannog i fod yn awyddus i ddysgu. Mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol yr ardal leol, Cymru a'r byd ehangach yn llwyddiannus iawn.

# Argymhellion

**A1 Sicrhau bod y cyngor ysgol yn cynnwys disgyblion o wahanol ddosbarthiadau er mwyn i'r rhai iau ddysgu sut i weithredu'n effeithiol ar bwyllgorau wrth eu cyfoedion sy'n hŷn**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Teilo Sant |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 179 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 150 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 29 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 4.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 73.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0 |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/04/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 07/05/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.